# Cynllun Rheoli Cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot 2015 tan 2020



www.npt.gov.uk

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol


*Making a difference Gwahaniaeth er gwell*

# Cynnwys

*Tudalen*

3 **1.0 Cyflwyniad**
4 **2.0 Cyd-destun Strategol**
5 **3.0 Yr Economi Ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot**
7 **4.0 Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) Castell-nedd Port Talbot**
9 **5.0 Nod ac Amcanion**
11 **6.0 Strwythur Partneriaeth a Chyflwyno**
12 **7.0 Cynllun Gweithredu**






# 1.0 Cyflwyniad

Rheoli cyrchfannau yw'r broses sy'n cydlynu holl agweddau ardal ddynodedig sy'n cyfrannu i brofiad ymwelydd ac yn ystyried anghenion ymwelwyr, busnesau lleol, preswylwyr a'r amgylchedd.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) yn ddatganiad o fwriad a rennir i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol, sy'n disgrifio rolau rhanddeiliaid gwahanol a nodi'r camau gweithredu clir y byddant yn eu cymryd.

Yn 2013, amcangyfrifwyd bod y sector twristiaeth yng Nghymru wedi cyfrannu oddeutu £3.1b at CDG Cymru. Os caiff ei chynllunio a'i rheoli'n effeithlon, mae gan yr economi ymwelwyr botensial i fod yn un o'r cyfranwyr mwyaf at dwf economaidd yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe, am ei bod yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol drwy'r diwydiant uniongyrchol (gwariant ymwelwyr) a thrwy'r economi ymwelwyr (effeithiau lluoswr drwy'r gadwyn gyflenwi).

**Pam y mae angen Cynllun Rheoli Cyrchfannau ar Gastell-nedd Port Talbot?**

- Er mwyn dangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymrwymedig i gefnogi'r economi ymwelwyr yn y Fwrdeistref Sirol drwy:
  - Ddatblygu prosiectau strategol ar gyfer twf economaidd, a
  - Datblygu a chefnogi busnesau a'u cynnwys
- Sefydlu partneriaeth rhwng y cyngor a rhanddeiliaid allweddol a fydd yn sicrhau bod gweithgareddau'r economi ymwelwyr yn cael eu cyflwyno mewn modd cydlynus a chydweithredol
- Llywio adnoddau i sicrhau y cynhelir profiadau o safon i ymwelwyr
- Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer twf economaidd o fewn y Fwrdeistref Sirol

[1] *Deloitte – Twristiaeth: swyddi a thwf. Cyfraniad economaidd yr economi dwristiaeth yn y DU. Tachwedd 2013*



## 2.0 Cyd-destun Strategol

Yn genedlaethol, mae twristiaeth wedi'i chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o naw sector allweddol yr economi. Mae ei strategaeth twristiaeth 2013-2020 'Partneriaeth ar gyfer Twf' yn nodi bod rheoli cyrchfan yn sylfaenol wrth helpu i wella apêl ymwelwyr cyrchfannau twristiaeth ar draws Cymru.  Mae'r egwyddorion a bennir yn nogfen Croeso Cymru, Datblygu'r Economi Ymwelwyr: Siarter i Gymru 2009, yn darparu cylch gorchwyl clir ar gyfer trefniadau rheoli cyrchfan yng Nghymru ac yn nodi rôl allweddol i awdurdodau lleol wrth arwain paratoi cynlluniau cyrchfan lleol a sefydlu partneriaethau cyrchfan lleol.

Yn rhanbarthol, roedd Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru (SWWTP) yn gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth twristiaeth genedlaethol yn rhanbarthol ac roedd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r diwydiant twristiaeth, i gymell twf cynaliadwy mewn twristiaeth. Fel rhan o'i chylch gwaith, comisiynodd SWWTP strategaeth twristiaeth ranbarthol a oedd yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r strategaeth twristiaeth genedlaethol.  Ers mis Hydref 2014, mae Croeso Cymru wedi sefydlu timau cynnwys, sy'n parhau i gyflwyno cefnogaeth leol.

Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030 yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'r economi ranbarthol ac yn ei nodi'n un o'r sectorau allweddol â photensial sylweddol ar gyfer twf.



# 3.0 Yr Economi Ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot

## Tabl 1: Twf yr Economi Ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot

| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Ymwelwyr - cyfraniad at yr economi leol (miliynau o £oedd) | 91.1 | 91.1 | 96.3 | 94.7 | 95.6 | 99.6 | 97.93 |
| Ymwelwyr (Miliynau) | 1,350 | 1,341 | 1,443 | 1,355 | 1,374 | 1,458 | 1,375 |
| Cyflogaeth a gefnogir (Cyfwerth Amser Llawn) | 1,554 | 1,561 | 1,628 | 1,602 | 1,585 | 1,637 | 1,574 |

**Ffynhonnell: Adroddiad Tueddiadau Terfynol Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough 2002 - 2013 20 Mehefin 2014**

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae CBS Castell-nedd Port Talbot wedi sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd yr economi ymwelwyr sydd wedi bod o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, mae'r economi ymwelwyr bellach yn sector o'r economi leol sy'n tyfu.

Mae'r ffigurau yn Nhabl 1 yn dangos twf yr economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ers 2007.

Buddsoddwyd yn benodol mewn llwybrau a chyfleusterau beicio mynydd ym Mharc Coedwig Afan, ac erbyn hyn, dyma un o'r ardaloedd sefydledig gorau yn y DU ar gyfer beicio mynydd. Yn benodol, mae buddsoddiad trwy brosiect llwybrau beicio de Cymru Cognation wedi cryfhau'r cynnyrch beicio mynydd ymhellach ar draws y rhanbarth, gan greu un o'r cyrchfannau beicio mynydd mwyaf cyffrous yn y byd.

Drwy gyflwyno prosiectau twristiaeth a ariennir trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG), Ardal Adfywio Strategol (AAS) Cymoedd y Gorllewin Llywodraeth Cymru a thrwy arian Cydgyfeirio Ewropeaidd, rydym wedi cynyddu gallu ardal ehangach Castell-nedd Port Talbot i ddarparu ar gyfer ymwelwyr. Prif amcan y buddsoddiad hwn yw lledaenu budd economaidd twristiaeth ar draws y fwrdeistref sirol.

Gellir crynhoi ymwelwyr â Phort Talbot fel a ganlyn:

- Mae Castell-nedd Port Talbot yn denu cyfran fwy o ymwelwyr dydd nag a welir yng Nghymru'n gyffredinol. Mae hyn oherwydd agosatrwydd y fwrdeistref sirol at Abertawe, Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n tynnu sylw at y ffaith nad ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y farchnad ymwelwyr dydd fel targed allweddol ar gyfer yr ardal.

- Mae gwyliau byr yn cyfrif am gyfran uchel o'r ymwelwyr sy'n aros yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Mae Castell-nedd Port Talbot yn denu proffil iau o ymwelwyr na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfleusterau a'r llwybrau beicio mynydd ym Mharc Coedwig Afan.
- Mae agosatrwydd Castell-nedd Port Talbot at gyrchfannau adnabyddus ym Mhenrhyn Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu at y farchnad ymwelwyr dydd gref yn y fwrdeistref sirol. Cyfle allweddol i Gastell-nedd Port Talbot yw trosi'r ymwelwyr dydd hyn yn ymwelwyr sy'n aros fel eu bod yn defnyddio llety yn y fwrdeistref sirol ac felly'n gwario mwy o arian yn yr economi leol.
- Mae cyfleoedd i gynyddu'r arian mae ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy'n aros yn ei wario pan fyddant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Er mwyn cynyddu gwariant ymwelwyr i'r eithaf, mae angen rhagor o waith wrth gydweddu'r sector preifat a'r trydydd sector â chyfleoedd datblygu manwerthu a llety penodol i greu mwy o leoedd i ymwelwyr brynu cofroddion, cael pryd o fwyd/byrbryd, prynu cyflenwadau etc.
- O ganlyniad i dwf beicio mynydd ym Mharc Coedwig Afan, mae'r ardal yn denu ymwelwyr beicio mynydd gweddol gefnog ond 'arbenigol'. Unigolion neu grwpiau yw'r rhain yn bennaf yn hytrach na theuluoedd. Fodd bynnag, gall y demograffig hwn newid oherwydd y buddsoddiad mewn llwybrau teuluoedd sydd wedi'u cyflwyno trwy brosiect llwybrau beicio de Cymru.
- Mae gan deuluoedd y potensial i gael effaith economaidd ehangach ar draws y fwrdeistref sirol gyfan gan eu bod yn chwilio am ystod ehangach o weithgareddau ac atyniadau mewn cyrchfan ac mae ganddynt y potensial i wario mwy o arian. Bydd angen hyrwyddo'r ystod o bethau i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal yn well, wedi'u hanelu'n benodol at deuluoedd i fynd ati i dargedu'r farchnad ymwelwyr hon.



## 4.0 Dadansoddiad SWOT Castell-nedd Port Talbot

Datblygwyd y dadansoddiad SWOT hwn ar y cyd â rhanddeiliaid gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth allweddol, gan gynnwys STEAM ac adroddiad terfynol Cofiwch – Cysylltiadau, Cefn Gwlad, Cynaladwyedd.  .

### Cryfderau

- Y gallu i gynnal digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol mawr (Parc Coedwig Afan a Pharc Gwledig Margam).
- Amrywiaeth eang o atyniadau hanesyddol (o domenni claddu'r Oes Efydd i fannau gwylio'r Ail Ryfel Byd).
- Lleoliad strategol fel y porth i Fae Abertawe o'r dwyrain.
- Cysylltiadau ffordd ardderchog trwy'r M4 a'r A465 ag ardaloedd twristiaeth o bwys cenedlaethol yn Abertawe, Caerdydd, Caerfyrddin ac Aberhonddu.
- Cysylltiadau rheilffordd ardderchog â dinasoedd y DU, gan gynnwys Caerdydd a Llundain.
- Mae 3 chanol tref yn darparu cyfleusterau allweddol i ardaloedd CASTELL-NEDD PORT TALBOT cyfan – agos at ganol trefi
- Ymdeimlad o le' ardderchog gan fusnesau twristiaeth lleol a chyfeillgar.
- Yn fyd-enwog fel cyrchfan ymwelwyr beicio mynydd.
- Rhan o dwristiaeth ehangach Bae Abertawe

### Gwendidau

- Profiad ymwelwyr gwael yn atyniadau CBS Castell-nedd Port Talbot, yn enwedig Parc Margam ac Amgueddfa Gwaith Glo Cefn Coed
- Mynediad anabl cyfyngedig mewn llawer o atyniadau ymwelwyr, e.e. Amgueddfa Glofa Cefn Coed
- Diffyg atyniad unigryw clir i brynwyr.
- Diffyg ffocws strategol, mae llawer o fusnesau â ffocws twristiaeth yn gweithio ar wahân i'w gilydd.
- Mae gwaith cynnal a chadw cyfyngedig o gyfleusterau ac arwyddion twristiaeth yn creu argraff wael (llwybrau cerdded heb eu cynnal, arwyddion hawliau tramwy ar goll etc.).
- Y gwaith cynnal a chadw lleiaf posib ar lwybrau beicio ac adeileddau cysylltiedig.
- Defnydd isel o gyfryngau digidol gan fusnesau ac atyniadau
- Darpariaeth cludiant cyhoeddus gyfyngedig ar y penwythnos i atyniadau twristiaeth allweddol
- Diffyg sefydliad arweiniol i gydlynu twristiaeth yn strategol yn yr ardal
- Diffyg arloesedd twristiaeth yn yr ardal i groesawu technolegau newydd a chynnig cynnyrch twristiaeth newydd.
- Ystod gyfyngedig o gategorïau llety
- Dim ymdeimlad clir o gyrraedd Castell-nedd Port Talbot o bob cyfeiriad – dim pyrth croesawu
- Cyfleusterau parcio cyfyngedig mewn lleoliadau twristiaeth allweddol, e.e. Gwlad y Sgydau, llwybrau Richard Burton, Llwybr Arfordir Castell-nedd Port Talbot etc.
- Llawer o fiwrocratiaeth a diffyg cefnogaeth gan berchnogion tir ar gyfer darparu chwaraeon, e.e. dringo creigiau, datblygiadau afonydd a theithiau cerdded mynyddoedd.
- Clefyd coed 'Phytophthora Ramorum' yn disbyddu'r coedwigoedd lleol ac yn parhau gydag achosion newydd wedi'u cadarnhau ym Mharc Margam.

- Diffyg buddsoddiad a meddwl strategol gan berchnogion tir lleol allweddol, gan gynnwys Coed Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a CBS Castell-nedd Port Talbot.
- Dibyniaeth drom ar gyllid yr UE a chyllid y loteri i ddatblygu atyniadau a chyfleusterau newydd
- Dibyniaeth ar fusnes tymhorol
- Dim cefnogaeth na buddsoddiad gan CBS Castell-nedd Port Talbot ar gyfer marchnata cyrchfannau
- Diffyg cynnyrch twristiaeth Castell-nedd Port Talbot ar www.dewchifaeabertawe.com

### Cyfleoedd

- Datblygu llety i wella sgorau sêr sicrhau ansawdd
- Gwella'r profiad ymwelwyr mewn atyniadau allweddol, e.e. Parc Margam
- Datblygu safleoedd allweddol fel lleoliadau posibl ar gyfer digwyddiadau mawr
- Creu pecynnau o brofiadau i ymwelwyr - gwyliau cerdded, gwyliau beicio mynydd, gwyliau gweithgareddau, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r tymhorau
- Darparu gwybodaeth i dwristiaid
- Buddsoddi yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe
- Campus newydd Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian – cyfleoedd i hyrwyddo cynnyrch twristiaeth i staff a myfyrwyr, yn ogystal â'r farchnad 'ffrindiau a theulu sy'n ymweld'
- Mae'r gostyngiad parhaus mewn gwariant defnyddwyr yn estyn y diwylliant 'gwyliau gartref', sy'n rhoi cyfle i ddenu marchnadoedd newydd.
- Bydd cynyddu buddsoddiad mewn band eang yn creu cyfleoedd i fusnesau twristiaeth lleol fod yn fwy cysylltiedig â chwsmeriaid ac mae'n gallu cynyddu cyfleoedd hyrwyddo.
- Mae cynyddu buddsoddiadau lleol gan ffermydd gwynt yn gallu cynyddu buddsoddiad a phrosiectau twristiaeth.
- Buddsoddi mewn adfywio safleoedd twristiaeth allweddol yn ffisegol.
- Gallai trydaneiddio'r rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain leihau amseroedd teithio ymwelwyr ar hyd coridor yr M4 a'r cymoedd i GASTELL-NEDD PORT TALBOT.
- Gall Morlyn Llanw Bae Abertawe gynyddu ymwelwyr ag ardal Llansawel a darparu atyniad ymwelwyr newydd ac unigryw
- Cyfle i weithio'n agos gyda Dinas a Sir Abertawe a sicrhau bod amcanion y CRhC yn cyd-fynd ag amcanion CRhC Abertawe.
- Mynediad i Gronfa Cynnwys Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru
- Ymgysylltu â Choleg Castell-nedd Port Talbot er mwyn hyrwyddo gyrfaoedd twristiaeth/lletygarwch

### Bygythiadau

- Pwysau ar gyllidebau CBS Castell-nedd Port Talbot i leihau gwasanaethau a gaiff effaith negyddol ar yr economi ymwelwyr.
- Defnydd cynyddol ffermydd gwynt yn lleol yn effeithio ar olygfeydd ar draws Castell-nedd Port Talbot.
- Gall newid gweinidogion yn LlC newid blaenoriaethau twristiaeth
- Abertawe'n cael ei hyrwyddo'n fwy cadarnhaol na Chastell-nedd Port Talbot yn y cyfryngau lleol
- Ansawdd aer gwael oherwydd y dirwedd ddiwydiannol
- Lefelau uchel o amddifadedd lleol yn arwain at wariant isel mewn atyniadau gan farchnad ymwelwyr dydd Castell-nedd Port Talbot.
- Ystyrir bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch gynyddol yn rhwystr i ddarparu chwaraeon eithafol.

# 5.0 Nod ac Amcanion

## Nod

**Mwyafu'r potensial ar gyfer twf yn economi ymwelwyr Castell-nedd Port Talbot, trwy fabwysiadu ymagwedd strategol at reoli a chynnal a chadw profiad ymwelwyr o safon.**

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'n bwysig deall yr elfennau sy'n cyfrannu i'r profiad ymwelwyr, gan gynnwys:

- llety
- lleoedd ac atyniadau yr ymwelir â hwy
- gweithgareddau ac adloniant
- bwyd a diod
- pobl y cyfarfyddir â hwy
- cludiant a ddefnyddir
- ffyrdd y cafwyd gwybodaeth
- busnesau twristiaeth

Dylid ystyried y rhestr uchod yn ogystal ag elfennau eraill sy'n ychwanegu at y profiad cyffredinol, megis isadeiledd trafnidiaeth, darparu TGCh/band eang, rheoli lleoedd, gofal cwsmeriaid, rheoli'r gadwyn gyflenwi, celf a diwylliant, cynllunio defnydd tir a manwerthu.

Pan fo ymwelwyr yn treulio'u hamser ac yn gwario'u harian mewn cyrchfan, nid ydynt yn prynu cynnyrch go iawn y gallant fynd ag ef adref – maent yn prynu profiad sydd, yn y pen draw, yn gasgliad o atgofion o'r amser a dreuliwyd yn y cyrchfan hwnnw. Gallai fod goblygiadau i fusnesau eraill yn sgîl profiad gwael neu gyffredin mewn unrhyw elfen o'r ymweliad. Felly, mae rhyngddibyniaeth rhwng busnesau a phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r elfennau uchod i sicrhau bod y profiad ymwelwyr o'r safon uchaf bosibl.

### Amcanion

- Cynyddu cyfraniad gwariant ymwelwyr a'r economi ymwelwyr at economi leol Castell-nedd Port Talbot
- Sefydlu Castell-nedd Port Talbot yn gyrchfan sy'n cyflwyno profiad ymwelwyr o safon yn gyson
- Datblygu partneriaeth o randdeiliaid twristiaeth allweddol i lywio'r gwaith o reoli'r cyrchfan.

## Meysydd gweithgaredd sy'n flaenoriaeth

Er mwyn cyflawni'r nod a'r amcanion, blaenoriaethwyd y meysydd gweithgaredd canlynol:

- **Adeiladu lleoedd**
  - Cynnal isadeiledd a mannau cyhoeddus o safon i ddiwallu anghenion ymwelwyr a phreswylwyr lleol.
  - Gwella ansawdd y profiad ymwelwyr drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o le arbennig a fydd yn annog pobl i ymweld ac argymell y lle i eraill.
  - Archwilio cyfleoedd buddsoddi er mwyn adfywio safleoedd strategol allweddol

- **Datblygu cynnyrch**
  - Ysgogi buddsoddiad mewn llety, atyniadau a gweithgareddau o safon
  - Annog cyfranogiad mewn cynlluniau sicrhau ansawdd
  - Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r cynnyrch sydd eisoes yn bod a datblygu cynnyrch newydd
  - Cefnogi gweithredwyr i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r tymhorau
  - Sefydlu Parc Margam fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau mawr

- **Hyrwyddo**
  - Mabwysiadu ymagwedd a arweinir gan y cynnyrch at farchnata, gan adeiladu ar gryfder ein cynnyrch cyfredol
  - Canolbwyntio ar safon uchel yr hyn a gynigir yn y fwrdeistref sirol
  - Targedu marchnadoedd a chanddynt y potensial twf mwyaf
  - Sicrhau bod gweithgareddau marchnata'n cyd-fynd â themâu blynyddol Croeso Cymru
  - Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hunaniaeth frand y gellir ei haddasu i'w defnyddio gan bob rhanddeiliad.

- **Pobl**
  - Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith o randdeiliaid economi ymwelwyr allweddol i hwyluso ymgysylltu a chyfranogiad o ran rheoli cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot
  - Annog gweithredwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygu staff perthnasol



# 6.0 Strwythur Partneriaeth a Chyflwyno

## Partneriaid

Caiff llwyddiant y CRhC hwn ei bennu gan effeithiolrwydd y bartneriaeth a ddatblygir i'w gyflwyno.  Dyma'r partneriaid allweddol:

| Mewnol | Allanol |
|---|---|
| Mae adrannau CBS Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys:<br>Cefnogi busnesau<br>Eiddo ac adfywio<br>Priffyrdd<br>Cludiant<br>Cynllunio<br>Cefn gwlad a bioamrywiaeth<br>Gwasanaethau gofal strydoedd<br>Cyfathrebu<br>Cyllid Ewrop ac allanol<br>Addysg a Dysgu Gydol Oes | Twristiaeth Bae Abertawe<br>Y Sector Preifat<br>Croeso Cymru/Llywodraeth Cymru<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig<br>Grŵp Ymgysylltu Masnach Castell-nedd Port Talbot<br>Dinas-ranbarth Bae Abertawe<br>CGG Castell-nedd Port Talbot<br>CADW |

## Strwythur Cyflwyno

Caiff Grŵp Llywio ei sefydlu i arwain ar gefnogi'r economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd y Grŵp Llywio hwn yn cwrdd bob tri mis ac mae'n cynnwys:

- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd CBS Castell-nedd Port Talbot
- Pennaeth Gofal Strydoedd CBS Castell-nedd Port Talbot
- Pennaeth Cynllunio CBS Castell-nedd Port Talbot
- Pennaeth Eiddo ac Adfywio CBS Castell-nedd Port Talbot
- Cadeirydd Twristiaeth Bae Abertawe
- Y Sector Preifat
- Rheolwr Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (fel y bo'n briodol)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (fel y bo'n briodol)

Caiff gweithgorau eu sefydlu i gyflwyno'r gweithgareddau a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r CRhC.  Mae'r gweithgorau'n cynnwys Swyddogion CBS Castell-nedd Port Talbot, Twristiaeth Bae Abertawe a chynrychiolwyr o'r sector preifat a'r trydydd sector, fel y bo'n briodol.

Mae Twristiaeth Bae Abertawe wedi datblygu'r grwpiau rhanddeiliaid twristiaeth lleol, a sefydlwyd yn wreiddiol gan Dîm Twristiaeth Castell-nedd Port Talbot, yn un fforwm twristiaeth ar draws y sir, lle gall yr holl fusnesau a sefydliadau â budd gymryd rhan a chwarae rôl wrth gyflwyno cynllun gweithredu'r CRhC.  Mae'r ymgysylltu hyn yn helpu i sicrhau bod y gymuned leol a'r diwydiant twristiaeth lleol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu twristiaeth yn strategol. Mae'r Grŵp Ymgysylltu Masnach Castell-nedd Port Talbot hwn yn cwrdd bob tri mis, a bydd yn bwydo i mewn i'r Grŵp Llywio.

## 7.0 Cynllun Gweithredu

Mabwysiadwyd ymagwedd 'o'r gwaelod i fyny' i ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn er mwyn sicrhau bod anghenion yr economi ymwelwyr a masnach Castell-nedd Port Talbot yn ganolog iddo.  Datblygwyd y cynllun mewn partneriaeth â Thwristiaeth Bae Abertawe a Grŵp Ymgysylltu Masnach Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â phartneriaid mewnol CBS Castell-nedd Port Talbot a nodwyd yn adran 6.0 y CRhC.

Nod y cynllun yw nodi camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at gyflawniad y nod a'r amcanion a nodwyd yn Adran 5.0 y CRhC hwn. Bydd hefyd yn canfod pwy fydd yn gyfrifol am gyflwyno pob cam gweithredu.

Caiff y cynllun gweithredu hwn ei adolygu bob chwe mis a defnyddir adborth gan randdeiliaid allweddol i'w ddiweddaru ac adrodd ar gynnydd.    Bydd strwythurau wedi'u diffinio'n glir i'r cyfathrebu rhwng y Grŵp Llywio, Grwpiau Cyflwyno a Grŵp Ymgysylltu Masnach Castell-nedd Port Talbot i sicrhau proses gadarn.



| **Adeiladu Lleoedd**<br>• Cynnal isadeiledd a mannau cyhoeddus o safon i ddiwallu anghenion ymwelwyr a phreswylwyr lleol.<br>• Gwella ansawdd y profiad ymwelwyr drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o le arbennig a fydd yn annog pobl i ymweld ac argymell y lle i eraill.<br>• Archwilio cyfleoedd buddsoddi er mwyn adfywio safleoedd strategol allweddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Partner(iaid) Arweiniol** | **Amcan/Diben** | **Cyllid** | **Amserlen** | **Cynnydd** |
| Cefnogi buddsoddiad mewn cyfleusterau sy'n addas i'r teulu ym Mharc Coedwig Afan | Llwybrau: CNC<br>Ardaloedd chwarae/gwersyllfan: CBSCNPT | Datblygu llwybrau lefel isel, ardaloedd chwarae newydd a chyfleusterau gwersylla | CNC/CBSC NPT | | |
| Sefydlu cynllun rhoi gan ymwelwyr ym Mharc Coedwig Afan | Cognation Ltd | Cynhyrchu incwm i barhau'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau | Cognation | 2015 - 2017 | |
| Rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn Asesiad Tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar waith | CNC | Adfer ardaloedd y mae clefyd coed wedi effeithio arnynt | CNC | | |
| Cefnogi datblygiad Ystâd Rheola gan y sector preifat ar gyfer adfywio a arweinir gan dwristiaeth | CBSCNPT/Y Sector Preifat | Cynyddu llety a chyfleusterau i ymwelwyr yng Nghwm Nedd | | | |
| Ailddatblygu Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot | CBSCNPT | Datblygu cyfleuster celfyddydau/diwylliant newydd ym Mhort Talbot a fydd o fudd i dwristiaid a phobl leol. | Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | I'w gwblhau yn 2017 | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu a chynnal glan môr Aberafan | CBSCNPT/Y Sector Preifat | Parhau i ddarparu cyfleusterau sy'n addas i deuluoedd ac sy'n hygyrch. Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu'r canlynol ymhellach:<br>• Cyfleusterau hamdden<br>• Mannau parcio ceir<br>• Amddiffynfeydd llifogydd<br>• Gwelliannau tirweddu/isadeiledd/ amgylcheddol | CBSCNPT | | |
| Parhau i gefnogi'r achos busnes am fuddsoddiad i adfer Camlesi Nedd a Thenant | CBSCNPT | | | | |
| Cefnogi'r achos busnes ar gyfer adfer traphont ddŵr Aberdulais | CBSCNPT | | | | |
| Cefnogi Ymddiriedolaeth Camlesi Nedd a Thenant i weithredu Cwch Teithio Thomas Dadford | CBSCNPT | | | | |
| Gwella mynediad i'r sgydau ym Mhontneddfechan | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/CBSCNPT | Datblygu atebion i'r pwysau parcio ym Mhontneddfechan. Gwella'r fynedfa i'r pentref drwy wella'r tir sydd gyfagos â Thafarn yr Angel a Chanolfan y Sgydau | | | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu proffil Mynachlog Nedd ymhellach fel atyniad pwysig ar gyfer Castell-nedd Port Talbot | CBSCNPT/CADW | Sefydlu perthynas waith gryfach â CADW<br>Cynorthwyo Cyfeillion Gwaith Haearn Mynachlog Nedd gyda'u dyheadau<br>Gwella'r safle, gan gynnwys ffyrdd mynediad ac arwyddion | | | |
| Cefnogi'r achos busnes ar gyfer datblygu Doc Brunel | CBSCNPT | | | | |
| Datblygu canol trefi Castell-nedd, Pontardawe a Phort Talbot | CBSCNPT | Gwella'r cyfleusterau siopa a pharcio i annog mwy o ymwelwyr a phreswylwyr CNPT | | | |
| Gwella arwyddion mewn gorsafoedd trenau a bysus yn yr ardal i alluogi ymwelwyr i ganfod eu ffordd yng nghanol trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe | CBSCNPT | Gwella'r profiad ymwelwyr | | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â BayTrans i sicrhau arian i hyrwyddo cludiant cyhoeddus | CBSCNPT/BayTrans | Darparu gwell gwybodaeth i ymwelwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus i ymweld â safleoedd ac atyniadau allweddol yn CNPT | | | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu mapiau o lwybrau ar gyfer dulliau cludiant heb fodur | CBSCNPT | Annog mwy o gludiant heb fodur yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol | | | |
| Cynorthwyo busnesau twristiaeth i hyrwyddo gwybodaeth cludiant cyhoeddus i ymwelwyr cyn ac yn ystod eu hymweliad. | CBSCNPT/BayTrans/ Twristiaeth Bae Abertawe | Defnydd cynyddol o gludiant cynaliadwy | | | |
| Cynnal a gwella hawliau tramwy gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl a llwybrau beicio. Gwella pomprennau mewn ardaloedd gwledig | CBSCNPT | Glynu wrth y Ddeddf Teithio Llesol | | | |
| Nodi lleoliadau a fyddai'n elwa o ddehongliad newydd/gwell | CBSCNPT/Masnach Dwristiaeth/Twristiaeth Bae Abertawe | Gwella'r profiad ymwelwyr | | | |
| Cynnal arwyddion brown ac arwyddion cyfeiriol eraill | CBSCNPT | | | | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd cyllid ar gyfer mwy o ddehongli ac arwyddion synhwyraidd | CBSCNPT | | | | |
| Sicrhau cyllid ar gyfer mwy o gysylltedd digidol | CBSCNPT | Darparu band eang cyflym iawn er lles preswylwyr a busnesau. Cynyddu cysylltedd wi-fi | | | |
| Gwella golwg cyffredinol y fwrdeistref sirol drwy gamau gweithredu i leihau a chael gwared ar:<br>• Sbwriel<br>• Tipio anghyfreithlon<br>• Graffiti<br>• Baw cŵn | CBSCNPT | Ymchwilio i gamau gweithredu i sicrhau bod CNPT yn lle glân, deniadol a chroesawgar i fyw ac ymweld ag ef | | | |
| Gwella cyfleusterau gwastraff mewn cyrchfannau allweddol | CBSCNPT | Darparu:<br>• Biniau ailgylchu/sbwriel<br>• Biniau baw cŵn | | | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau amgylcheddol, gan gynnwys:<br>• Ffensio<br>• Gwelyau blodau a thywarchu gwell<br>• Ailblannu coetiroedd a ddifethwyd gan glefydau coed<br>• Rheoli chwyn ymledol | CBSCNPT | Cynnal a gwella mannau cyhoeddus | | | |
| Archwilio cyfleoedd buddsoddi ar gyfer Parc Margam i ddarparu cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau mawr | | Datblygu Parc Margam fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau a gwyliau mawr | | | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella goleuadau i gynyddu ymdeimlad o les/leihau ofn troseddau/oleuo nodweddion. | | | | | |
| Gwella'r ddarpariaeth parcio coetsis a mannau gollwng mewn safleoedd allweddol | | Nodi safleoedd ar gyfer mannau gollwng i goetsis yng nghanol trefi ac mewn safleoedd allweddol | | | |
| Gwella meysydd parcio CBSCNPT | | Archwilio'r posibilrwydd o uwchraddio cyfarpar i ganiatáu i aelodau dalu dros y ffôn/drwy gerdyn credyd neu ddebyd | | | |
| Gwella cyfleusterau toiledau cyhoeddus | CBSCNPT | | | | |
| Hyrwyddo'r grant cyfleusterau cyhoeddus i fusnesau | CBSCNPT | Cynyddu'r nifer o gyfleusterau i ymwelwyr a phreswylwyr lleol | | | |
| Gwella/gwarchod llwybr yr arfordir | | | | | |

**Datblygu Cynnyrch**

- Ysgogi buddsoddiad mewn llety, atyniadau a gweithgareddau o safon
- Annog cyfranogiad mewn cynlluniau sicrhau ansawdd
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r cynnyrch sydd eisoes yn bod a datblygu cynnyrch newydd
- Cefnogi gweithredwyr i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r tymhorau
- Sefydlu Parc Margam fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau mawr

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Mapio a gwerthuso cynnyrch yr economi ymwelwyr yn CNPT | Twristiaeth Bae Abertawe | Nodi ac asesu'r cynnyrch ymweld sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol | Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (CYTR) | 2015 - 2016 | |
| Cwrdd â'r holl fusnesau twristiaeth newydd/posib | CBSCNPT | Nodi cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi a chreu swyddi | | parhaus | |
| Cyfeirio busnesau newydd ac sydd eisoes yn bodoli at ffynonellau cyllid posib a chyngor ar gynllunio busnes | CBSCNPT | | | parhaus | |
| Annog busnesau presennol a rhai newydd i gymryd rhan yng ngrŵp ymgysylltu masnach twristiaeth CNPT | Twristiaeth Bae Abertawe/CBSCNPT | Annog ymgysylltu | | parhaus | |
| Annog datblygu llety yng Nghwm Nedd sy'n ategu darpariaeth a chynigion presennol Ystâd Rheola | CBSCNPT | | | | |

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu cyfleusterau gwersylla/carafanio, mannau trydan mewn safleoedd yn CBSCNPT | CBSCNPT | Ehangu'r cynnyrch gwersylla a charafanio ledled y fwrdeistref sirol, ond yn arbennig ym Mharc Margam | | | |
| Annog aelodaeth o gynlluniau achredu ansawdd cenedlaethol | CBSCNPT | Cynnal a gwella ansawdd busnesau twristiaeth drwy fod yn rhan o:<br>• Croeso Cymru<br>• VAQAS<br>• AA<br>• World Host | | parhaus | |
| Cynorthwyo busnesau i ddatblygu syniadau er mwyn cynyddu gwariant ymwelwyr ac er mwyn iddynt aros yn hwy | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Mwy o fudd economaidd i CNPT | | 2015 / 2016 | |
| Cynorthwyo busnesau i ddatblygu syniadau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r tymhorau | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Mwy o fudd economaidd i CNPT | | 2015 / 2016 | |

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Annog busnesau i fod yn gynaliadwy'n amgylcheddol | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Mwy o:<br>• Gyfranogiad mewn cynlluniau achredu gwyrdd<br>• Ymgysylltu â chydlynydd y cynllun teithio rhanbarthol<br>• Gwybodaeth am gyfleoedd cyllido ar gyfer gwelliannau cynaladwyedd amgylcheddol | | parhaus | |
| Buddsoddiad parhaus yn yr isadeiledd beicio mynydd ym Mharc Coedwig Afan i ddatblygu llwybrau newydd a chynnal y llwybrau presennol | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau bod Parc Coedwig Afan yn parhau i fod yn gyrchfan beicio mynydd o'r radd flaenaf | | | |
| Cefnogi datblygiad academi sgiliau beicio mynydd | Cognation Ltd mewn partneriaeth â masnach | Creu cyfleoedd cyflogaeth Annog y gymuned leol i ddefnyddio'r llwybrau'n fwy | Cognation Ltd | | |

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Annog buddsoddiad ychwanegol i gefnogi defnydd cynyddol o'r camlesi yng Nghwm Nedd a Chwm Tawe a'r dyfrffyrdd ar draws CNPT | CBSCNPT/Y Sector Preifat/Mordwyo Camlas Nedd/Ymddiriedolaeth Camlesi Nedd a Thenant/Cymdeithas Camlesi Abertawe | Archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cyfleusterau a gwasanaethau newydd:<br>• Gweithgareddau dŵr<br>• Cyfleusterau arlwyo<br>• Hwylio | | | |
| Datblygu llwybrau cerdded newydd | CBSCNPT | Ehangu'r cynnyrch cerdded a gynigir | | | |
| Cynorthwyo darparwyr gweithgareddau wrth ddatblygu cynnyrch gweithgareddau | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Gwella'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig i breswylwyr ac ymwelwyr, gan gynnwys:<br>• Golff<br>• Marchogaeth<br>• Teithiau cerdded tywys<br>• Chwaraeon dŵr<br>• Adeiladu tîm | | | |

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau buddsoddiad i ddatblygu atyniadau treftadaeth allweddol yn CNPT | CBSCNPT | Darparu profiad gwell i ymwelwyr yn y lleoedd canlynol:<br>• Parc Margam<br>• Parc Gwledig y Gnoll<br>• Camlas Nedd<br>• Rhaeadr Aberdulais<br>• Amgueddfa Glofa Cefn Coed<br>• Mynachlog Nedd<br>• Abaty Margam<br>• Amgueddfa Glowyr De Cymru<br>• Bae Abertawe 1940au<br>• Llwybr Treftadaeth Cwm Dulais<br>• Camlas Tawe<br>• Clwb Trotian Dyffryn Aman | | | |

| Camau gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau buddsoddiad i ddatblygu cyfleusterau celfyddydau a diwylliant yn CNPT | | Darparu gwell profiad i ymwelwyr ac amrywiaeth ehangach o ddigwyddiadau yn:<br>• Neuadd Gwyn<br>• Canolfan Celfyddydau Pontardawe<br>• Theatr y Dywysoges Frenhinol<br>• Gweithdai Celfyddydau<br>• Actio Amatur/Sioeau Cymunedol | | | |
| Sicrhau buddsoddiad i ddatblygu cyfleusterau awyr agored yn CNPT | | Darparu profiad gwell i ymwelwyr yn y lleoedd canlynol:<br>• Margam<br>• Y Gnoll<br>• Parc Coedwig Afan<br>• Traeth Aberafan<br>• Gwlad y Sgydau | | | |
| Hyrwyddo Parc Margam fel lleoliad dichonadwy ar gyfer digwyddiadau a gwyliau mawr | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Annog trefnwyr i gynnal eu digwyddiadau/gwyliau yn CNPT | | | |

**Hyrwyddo**

- Mabwysiadu ymagwedd a arweinir gan y cynnyrch at farchnata, gan adeiladu ar gryfder ein cynnyrch cyfredol
- Canolbwyntio ar y pethau o safon a gynigir yn y fwrdeistref sirol
- Targedu marchnadoedd a chanddynt y potensial twf mwyaf
- Sicrhau bod gweithgareddau marchnata'n cyd-fynd â themâu blynyddol Croeso Cymru
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hunaniaeth frand y gellir ei haddasu i'w defnyddio gan bob rhanddeiliad.

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal y gweithgareddau marchnata a nodwyd yng nghynllun marchnata 2015 | Twristiaeth Bae Abertawe | Cydlynu hyrwyddo CNPT yn unol â'r anghenion a nodwyd gan y fasnach dwristiaeth yn 2015 | | 2015 | |
| Ailddatblygu'r ddwy wefan cyrchfannau, Visit NPT a Visit Afan Forest Park | Twristiaeth Bae Abertawe | Darparu gwefannau i gefnogi hyrwyddo'r fasnach dwristiaeth yn CNPT | | 2015 - 2016 | |
| Cynnal presenoldeb ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Darparu gwybodaeth ddiddorol a chyfoes yn rheolaidd i annog mwy o ymwelwyr i ymweld â CNPT | | 2015 | |
| Cyhoeddi datganiadau i'r wasg am bob stori newyddion da | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Codi proffil CNPT yn y:<br>• Cyfryngau cyffredinol<br>• Cyfryngau masnach deithio | | parhaus | |
| Hyrwyddo digwyddiadau presennol i ymwelwyr a phreswylwyr ar wefannau | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Annog mwy o bobl i fynd i ddigwyddiadau a threulio mwy o amser yn CNPT | | Parhaus | |

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd i gynnal gweithgareddau hyrwyddol yn unol â Blwyddyn Antur Croeso Cymru yn 2016 | Twristiaeth Bae Abertawe | | | 2015 – 2016 | |
| Gweithio gyda busnesau twristiaeth i greu pecynnau o brofiadau i ymwelwyr er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r tymhorau | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Datblygu:<br>Gwyliau cerdded<br>Gwyliau beicio mynydd | | | |
| Datblygu cronfa o ddelweddau nad oes hawlfraint arnynt i'w defnyddio gan fasnach CNPT | Twristiaeth Bae Abertawe | Darparu delweddau o safon y gall y diwydiant twristiaeth eu defnyddio yn eu gweithgareddau hyrwyddol | | 2015 | |
| Datblygu fideo byr sy'n arddangos uchafbwyntiau CNPT | Twristiaeth Bae Abertawe | Darparu fideo y gall y diwydiant twristiaeth ei ddefnyddio yn eu gweithgareddau hyrwyddol | | 2015 | |
| Mynd i sioe masnach deithio Goreuon Prydain ac Iwerddon | Twristiaeth Bae Abertawe | Hyrwyddo cynnyrch a busnesau CNPT i drefnwyr teithiau grŵp | CYTR | 2016 | |
| Hyrwyddo cynnyrch twristiaeth CNPT ar gampws newydd Prifysgol Abertawe | Twristiaeth Bae Abertawe | Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau ymhlith myfyrwyr, staff, ffrindiau a pherthnasau sy'n ymweld. | CYTR | 2015 | |

## Pobl

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith o randdeiliaid yr economi ymwelwyr i hwyluso ymgysylltu a chyfranogiad o ran rheoli cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot
- Annog gweithredwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygu staff perthnasol

| Camau Gweithredu | Partner(iaid) Arweiniol | Amcan/Diben | Cyllid | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno rhwydweithio hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer busnesau twristiaeth | CBSCNPT/Twristiaeth Bae Abertawe | Datblygu gwybodaeth am gynhyrchu a sgiliau | CYTR | 2015 / 2016 | |
| Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â choleg CNPT i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes twristiaeth/lletygarwch | | | | | |
| Annog gweithredwyr twristiaeth i gymryd rhan yng Ngrŵp Ymgysylltu Masnach CNPT | Twristiaeth Bae Abertawe/CBSCNPT | Cynnwys cynifer o fusnesau â phosib yn y broses rheoli cyrchfannau | | | |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

*Making a difference Gwahaniaeth er gwell*



Tachwedd 2015